OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 631 (Cy.57) (C.43)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - 11 Mawrth 2009

Yn dod i rym - - 6 Ebrill 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 170(3) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a Chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y Diwrnod Penodedig

2. 6 Ebrill 2009 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dyfod i rym y darpariaethau canlynol o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 —

(a) adran 147 (diddymu atebolrwydd perthnasau am dâl cynnal);

(b) Atodlen 13 (darpariaethau trosiannol yn ymwneud ag adran 147); ac

(c) Rhan 5 o Atodlen 15 (diddymiadau a dirymiadau) ac adran 166 (diddymiadau) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno.

Gwenda Thomas
O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

11 Mawrth 2009

(**1**) 2008 p.14.